# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL
# DYDD GWENER, 16 MEHEFIN 2023

**PRESENNOL** Y Cynghorydd A.G. Morgan (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
K.V. Broom L. Davies A. Evans

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
K. Davies (dirprwy) T. Davies H.A.L. Evans R. James
D. Jones M.J.A. Lewis K. Madge

**Aelodau Cabinet yn bresennol (Yn y Siambr):**
Y Cynghorydd P. Hughes
Y Cynghorydd A. Lenny

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
N. Daniel, Pennaeth Gwasanaethau TGCh a Pholisi Corfforaethol
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata
K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr - Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.11 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D. Nicholas.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| K. Madge | 4 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2022-23 | Ei ferch yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| A. Evans | 4 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2022-23 | Aelod o'r teulu yn gweithio i'r adain Gwasanaethau Democrataidd. |
| M.J.A. Lewis | 4 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2022-23 | Ei nith yn gweithio i'r adran Addysg. |

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

## 4. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2022/23

[SYLWER: Wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, arhosodd y Cynghorwyr A. Evans, K. Madge a M.J.A. Lewis yn y cyfarfod wrth iddi gael ei hystyried.]

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau Adroddiad Monitro Cyllideb Gorfforaethol yr Awdurdod ac adroddiadau adrannol y Prif Weithredwr a'r Gwasanaethau Corfforaethol fel yr oeddent ar 28 Chwefror 2023 mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022/23. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys atodiad a oedd yn nodi adroddiad Monitro Arbedion 2022-23.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad monitro yn rhagweld gorwariant ar gyfer y flwyddyn ar lefel adrannol o £6.159m ac yn rhagweld tanwariant o £470k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a'r ymholiadau a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch swyddi gwag yn y canolfannau cyswllt, dywedodd y Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau fod rhai swyddi gwag wedi cael eu llenwi'n ddiweddar a bod yr aelodau staff sydd newydd eu penodi yn cael cyfnod o hyfforddiant ar hyn o bryd. Dywedwyd ymhellach, yn dilyn newid mewn prosesau yn yr adain, fod amseroedd ymateb mewn canolfannau cyswllt cwsmeriaid wedi gwella'n sylweddol; serch hynny, roedd y gallu a'r gwytnwch i ateb y galw yn ystod misoedd prysurach y gaeaf yn flaenoriaeth i'r adain yn y dyfodol. Rhoddodd y Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr ad-drefnu is-adrannol hefyd, gan nodi bod disgwyl i hyn gael ei roi ar waith erbyn canol mis Gorffennaf.

- Mewn ymateb i ymholiad rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r Cabinet yn ystyried y mater o ran ffermydd sirol ac y byddai gwybodaeth bellach ar gael i'r aelodau maes o law. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, mewn ymateb i newid i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru, fod y Cyngor wedi dyrannu arian ar gyfer seilwaith slyri yn ei gyllideb ar gyfer 2023/24.

- Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd ynghylch y gorwariant o ran ffioedd y crwner, rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol sicrwydd bod y mater hwn yn cael ei adolygu i gadarnhau a fyddai pwysau cyllidebol yn cael eu nodi ar gyfer cyllideb y Cyngor 2024/25.

- Cyfeiriwyd at y portfffolio Eiddo Masnachol lle cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod cyfleoedd cyllido allanol yn cael eu harchwilio yn unol â chyllideb gyfalaf yr awdurdod, ac yn hyn o beth darparwyd crynodeb o'r fenter adfywio Deg Tref i'r Pwyllgor a oedd yn ceisio cefnogi adferiad economaidd a thwf trefi gwledig ledled y sir. O ran adeiladau nad oes defnydd digonol yn cael ei wneud ohonynt o ganlyniad i gynnydd mewn gweithio ystwyth, rhoddwyd sicrwydd bod ystad y cyngor yn cael ei hadolygu i sicrhau'r elw gorau posibl ar fuddsoddiad.

- Mynegwyd pryderon ynghylch y ddibyniaeth ar weithwyr asiantaeth, yn enwedig yn yr is-adran gwasanaethau cymdeithasol, o ganlyniad i'r argyfwng recriwtio cenedlaethol. Rhoddwyd sicrwydd bod yr awdurdod yn bwriadu datblygu ei weithlu ei hun yn y maes hwn drwy fenter hyfforddi'r academi; fodd bynnag, nodwyd y byddai hyn yn cymryd amser.

- O ran y diffyg incwm parhaus yn y canolfannau hamdden/chwaraeon o ganlyniad i'r cwymp yn y niferoedd, nodwyd bod y diffyg yn lleihau ac roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod ffigurau aelodaeth wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig o ganlyniad i fesurau ymyrraeth cadarnhaol.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch gorwariant o ran taliadau banc, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod gwaith yn mynd rhagddo trwy ymchwil a gomisiynwyd yn allanol i hysbysu'r awdurdod o'r ffordd orau ymlaen fel rhan o'i wasanaeth bancio corfforaethol ehangach.

- Cyfeiriwyd at yr arbedion cyllidebol sy'n deillio o'r nifer gymharol uchel o swyddi gwag a holwyd a oedd gwaith wedi'i wneud i asesu'r effaith gyllidebol pe bai'r awdurdod yn dychwelyd i lefelau staffio arferol. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod y gyllideb yn adlewyrchu lefel arferol o drosiant staff, ynghyd â'r pwysau eithriadol yn y farchnad lafur yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, roedd yn braf nodi tystiolaeth anecdotaidd o adferiad yn y maes hwn gan fod llai o anawsterau recriwtio mewn rhai rolau.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y gwasanaeth prydau ysgol, cadarnhawyd i'r Pwyllgor, er nad oedd yr incwm a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i dalu cost y ddarpariaeth o ganlyniad i'r dyfarniadau cyflog, ei bod wedi ymrwymo i adolygu'r maes hwn.

- Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd ynghylch y costau sy'n deillio o dipio anghyfreithlon ac oherwydd nad yw tenantiaid yn cydymffurfio â strategaeth wastraff yr awdurdod, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Drefniadaeth a'r Gweithlu fod pedwar Swyddog Gorfodi Materion Amgylcheddol ychwanegol wedi'u penodi yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r mater hwn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL 2022/23

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a oedd yn rhoi manylion am y gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23. Roedd yr adroddiad wedi'i baratoi'n unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor ac roedd yn rhoi trosolwg o'r rhaglen waith a'r materion allweddol dan sylw, gan gynnwys hefyd unrhyw faterion a gyfeiriwyd at neu gan y Cabinet, adolygiadau Gorchwyl a Gorffen, sesiynau datblygu a phresenoldeb aelodau.

Cyfeiriwyd at gywiriad teipograffyddol i dudalen 2, paragraff 2 yr adroddiad a fyddai'n cael ei ddiweddaru i ddangos bod y pwyllgor wedi ymgynnull yn Hydref *2022.*

Dywedodd aelod fod lefelau presenoldeb rhai aelodau'r pwyllgor yn cael eu hystyried yn annerbyniol oherwydd bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r opsiwn o fod yn bresennol wyneb yn wyneb neu o bell drwy Zoom.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo’r adroddiad, yn amodol ar wneud newid teipograffyddol i dudalen 2, paragraff 2 yr adroddiad.**

## 6. DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU Y PWYLLGOR CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â cheisiadau neu atgyfeiriadau a oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 7. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**7.1 Bod trefniadau'n cael eu gwneud i'r Pwyllgor dderbyn adroddiad a chyflwyniad ar weithrediad canolfannau cyswllt y Cyngor mewn sesiwn anffurfiol ar ôl i gyfarfod y Pwyllgor ar 19 Gorffennaf 2023 ddod i ben**.

**7.2 Bod gwybodaeth am gynnydd a chost Tîm Trawsnewid Tyisha yn cael ei hanfon at y Pwyllgor i'w hystyried.**

**7.3 Derbyn y rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.**

**8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 03 MAI 2023**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a oedd wedi'i gynnal ar 3 Mai 2023 gan eu bod yn gywir.**

________________________ ____________________

**CHAIR** **DATE**